Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Garth
# Ffynnongroyw
# Treffynnon
# Sir y Fflint
# CH8 9JA

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bryn Garth yn gwasanaethu ardal wledig Penyffordd a Ffynnongroyw yn Sir y Fflint.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw yn lleol a rhai disgyblion yn dod o'r ardal gyfagos.  Mae hon yn ardal ddynodedig 'Cymunedau yn Gyntaf'.  Daw disgyblion o gefndiroedd amrywiol ac mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal y mae'n ei gwasanaethu fel un sy'n gymharol ddifreintiedig.  Ar hyn o bryd, mae gan ryw 23% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.  Mae hyn uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac mae'n codi.

Mae 79 o ddisgyblion amser llawn ac 13 o ddisgyblion rhan-amser ar y gofrestr ar hyn o bryd, wedi'u trefnu yn bedwar dosbarth.  Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r meithrin yn dair oed.  Caiff y dosbarthiadau eu haddysgu gan ddau athro amser llawn a thri athro rhan-amser.  Cânt eu cynorthwyo gan bedwar aelod o staff cymorth dysgu amser llawn ac un rhan-amser.

Mae gan yr ysgol un disgybl sy'n "cael gofal" gan yr awdurdod lleol.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.  Nodwyd bod gan ryw 8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan un disgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig.  Saesneg yw prif iaith y cartref yn achos bron pob disgybl.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn Garth yn 2010-2011 yw £3,240, sy'n cymharu ag uchafswm o £7,635 ac isafswm o £2,660 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir y Fflint.  Mae gan yr ysgol y 30fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 74 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda;
- bod safon lles disgyblion yn uchel;
- bod ansawdd y rhan fwyaf o'r addysgu yn dda; a
- bod y gweithdrefnau asesu yn hynod effeithiol ac yn galluogi disgyblion i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r farn ar gyfer rhagolygon gwella yn  dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad clir ar gyfer yr ysgol;
- bod cyswllt clir ac effeithiol rhwng hunanarfarnu a gwella'r ysgol;
- bod yr ysgol yn gwneud defnydd da iawn o ystod eang o ddata i wella perfformiad disgyblion; a
- bod yr ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus ag argymhellion o'r arolygiad diwethaf ac archwiliad diweddar gan yr awdurdod lleol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 godi safonau disgyblion yn yr iaith Gymraeg ac mewn ysgrifennu;

A2 cynllunio gweithgareddau sy’n herio disgyblion mwy abl; a

A3 datblygu systemau hunanarfarnu ymhellach trwy ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn well.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau sy'n gyffredinol islaw'r rhai a ddisgwylir gan ddisgyblion o oedran tebyg fel arfer.

Tra byddant yn Ysgol Bryn Garth, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn yr ysgol yn cyflawni'n uwch na disgyblion mewn ysgolion tebyg, yng Nghymru ac yn yr awdurdod lleol. Mae gwaith yn llyfrau disgyblion yn cadarnhau bod llawer o ddisgyblion yn gweithio ar y lefel ddisgwyliedig a bod rhai ohonynt yn gweithio uwchlaw'r lefel hon erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar aelodau o staff ac ar ddisgyblion eraill. Mae disgyblion iau yn siarad yn glir ac yn defnyddio ystod eang o eirfa i fynegi eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siaradwyr hyderus ac maent yn cyfathrebu'n glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Gwneir cynnydd da mewn darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol sy'n eu galluogi i ddarllen gyda rhuglder a dealltwriaeth briodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt wybodaeth gadarn am seiniau a phatrymau llythrennau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda mynegiant da. Maent yn darllen am gyfnodau cynyddol o amser. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gymeriadau a rhediad stori. Gall disgyblion mwy abl fwrw golwg cyflym dros ddarn i gael ei ystyr. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n casglu gwybodaeth o destun yn hyderus neu'n gallu dod o hyd i gyfeirlyfrau yn hyderus a'u defnyddio yn effeithiol i gasglu gwybodaeth.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n hyderus at ystod eang o ddibenion. Mae llawer ohonynt yn sillafu geiriau syml yn gywir ac yn dechrau defnyddio atalnodi yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio paragraffau ac iaith ddisgrifiadol yn dda i ysgrifennu cerddi, storïau, adroddiadau ac adrodd am wibdeithiau ac ymweliadau. Maent yn cymhwyso eu medrau yn dda ar draws yr ystod lawn o bynciau. Mae medrau cyflwyno a llawysgrifen yn wan, ac nid yw rhai disgyblion yn ysgrifennu'n helaeth yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda mewn llawer o bynciau. Mae eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda, ond nid ydynt yn defnyddio'r rhain yn ddigon da mewn pynciau fel gwyddoniaeth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u galluoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth â'u dysgu yn gwneud cynnydd yn gyflym. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, er bod merched yn parhau i berfformio ychydig yn well na bechgyn ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae bechgyn yn cyflawni'n well ar y lefel 5 uwch.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu Cymraeg, prin yw'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sy'n gwneud cynnydd priodol yn yr iaith Gymraeg ac mae safonau yn ddigonol. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd digonol. Maent yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol a'r Gymraeg achlysurol a ddefnyddir gan y staff. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol i gyfarch staff ac ymwelwyr, ond nid ydynt yn gwneud defnydd da o'r patrymau iaith hyn gyda'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae gan bob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Maent yn bwyta'n iach yn yr ysgol ac yn ymuno'n dda mewn ystod dda o weithgareddau chwaraeon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau. Maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch at safbwyntiau pobl eraill wrth iddynt rannu syniadau. Caiff pob un o'r plant yn y Cyfnod Sylfaen eu cynnwys yn effeithiol mewn cynllunio eu gweithgareddau dysgu ond nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud hyn gystal.

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am ystod o swyddi fel monitoriaid 'clwb brecwast' neu gyfeillion cae chwarae yn rhwydd.

Maer cyngor yr ysgol wedi'i hen sefydlu. Mae aelodau yn teimlo bod eu hawgrymiadau a'u penderfyniadau yn cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd yr ysgol fel datblygu cae chwarae antur yr ysgol a threfnu digwyddiadau elusennol o fewn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel ymweliadau â'r eglwys leol a chanu yn y pentref.

Mae presenoldeb disgyblion, sef 94%, yn dangos ychydig o ostyngiad dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n gyson yn y 25% uchaf ar gyfer ysgolion tebyg. Mae prydlondeb yn dda ar y cyfan.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, yn seiliedig ar ystod o destunau diddorol, sydd o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae profiadau yn y Cyfnod Sylfaen yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud i gyfnod allweddol 2.

Mae cynllunio athrawon yn fanwl a thrylwyr. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol, ond nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn pynciau eraill.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am y byd ehangach trwy sesiynau Ffrangeg ac ysgrifennu at ysgolion gartref a thramor, er enghraifft. Mae'r 'Ysgol yn y Goedwig' a sefydlwyd yn ddiweddar a'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored wedi helpu gwella dealltwriaeth disgyblion o'r amgylchedd. Mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ailgylchu ac arbed ynni.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol y tu allan i'r ysgol. Mae ymweliadau addysgol ag Erddig a Sw Fynydd Bae Colwyn, er enghraifft, a digwyddiadau arbennig fel Filmfest a Dancefest, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn briodol, ond nid yw'r cynllunio ar gyfer y Gymraeg bob amser yn galluogi disgyblion i wneud digon o gynnydd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

### Addysgu: Da

At ei gilydd, mae'r addysgu'n dda. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar y cyfan, yn enwedig i fodloni anghenion disgyblion llai abl. Mae cyflymder da i'r rhan fwyaf o wersi, ac mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu llwyddiannus, yn enwedig defnyddio canmoliaeth ac anogaeth gadarnhaol, i ennyn diddordeb y disgyblion. Nodwedd gref ar yr addysgu yw'r defnydd effeithiol iawn a wneir o staff cymorth, sy'n arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

Lle mae diffygion yn yr addysgu, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion mwy abl.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ysgrifenedig a llafar manwl, clir a chefnogol i ddisgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i wybod sut y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r canlyniadau yn effeithiol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn asesu pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gywir.

Mae adroddiadau i rieni/gofalwyr yn llawn gwybodaeth ac yn annog rhieni a disgyblion i roi sylwadau ar gynnydd.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae staff yn annog pob disgybl i gymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae trefniadau effeithiol i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau cyflawniad, tystysgrifau ac amser aur, er enghraifft. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda i safonau da lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda gwasanaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i gyflawni'n dda. Mae'r safonau uchel o ran ymddygiad disgyblion a'r perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn helpu creu ethos cadarnhaol o barch o fewn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n helpu iddynt gyflawni'n dda. Mae gweithdrefnau asesu effeithiol yn galluogi staff i ganfod anawsterau disgyblion yn gynnar. Mae staff yn adolygu cynnydd disgyblion ac yn diweddaru cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn rheolaidd. Maent yn hysbysu rhieni yn dda ac yn eu cynnwys yn llawn yng nghynnydd eu plentyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Bryn Garth yn ysgol hapus, ofalgar a chwbl gynhwysol, sy'n gwerthfawrogi pob disgybl. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae trefniadau da iawn ar waith i sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol. Caiff cyflawniadau disgyblion eu canmol a'u dathlu.

Mae'r adeilad yn eang. Mae ystafelloedd dosbarth a mannau yn yr awyr agored yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Gwneir defnydd da o ystod eang o adnoddau sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Gofelir yn dda am yr adeilad.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir y mae'n ei chyfleu'n dda i staff, rhieni a disgyblion. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae wedi datblygu synnwyr cryf o waith tîm lle mae staff a llywodraethwyr yn rhannu synnwyr cyffredin o ddiben a chyfeiriad. Adlewyrchir hyn yn dda yn yr ethos cadarnhaol iawn ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau ac arferion hynod effeithiol i ddatblygu gwella'r ysgol yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o ddata. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob un o'r staff drafod cynnydd a meddwl am arfer dda, a'i rhannu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol. Maent yn wybodus am berfformiad disgyblion a sut y mae'r ysgol yn datblygu. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn monitro darpariaeth ac mewn herio'r ysgol wedi'i datblygu cystal.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn nodwedd sy'n datblygu yng ngwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r broses yn cynnwys pob un o'r staff yn gynyddol mewn trafod deilliannau a'u perfformiad eu hunain.

Mae hunanarfarnu yn defnyddio ystod gadarn o wybodaeth. Caiff data perfformiad disgyblion ei ddadansoddi'n ofalus i nodi pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni. Mae'r ysgol yn gofyn safbwyntiau disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r awdurdod lleol ac yn gweithredu yn unol â'r wybodaeth hon yn briodol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda yn y mwyafrif o'i gwaith. Mae'n glir iawn pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio, ond mae'n llai sicr ynghylch materion yn ymwneud ag addysgu a rheoli.

Mae blaenoriaethau o hunanarfarnu yn cysylltu'n glir â'r cynllun gwella ysgol. Mae'r ysgol yn gosod targedau heriol iddi hi ei hun ar gyfer gwella. Mae cynlluniau yn amlinellu strategaethau cadarn ar gyfer gwelliannau, ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n glir ar yr effaith ar safonau disgyblion. Nid yw'r trefniadau i fonitro'r cynllun wedi'u seilio'n ddigon da ar dystiolaeth uniongyrchol bob amser.

Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn rhannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth yn gynyddol. Mae staff yn gweithio ag ysgolion eraill ar faterion penodol o ran gwella'r ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael effaith dda ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol, fel gwella safonau darllen disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf i ehangu ystod y dewisiadau i ddisgyblion. Mae hyn wedi creu manteision sylweddol o ran safonau a lles gwell i lawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r rhaglen 'Dysgu Teuluol' ddiweddar wedi bod yn llwyddiannus iawn yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant a galluogi'r disgyblion hyn i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r ddarpariaeth cyn-ysgol 'Busy Bees', sydd wedi'i lleoli ar y safle. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym yn Ysgol Bryn Garth a gwneud cynnydd da yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau da gydag ysgolion uwchradd yn sicrhau bod disgyblion hŷn wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer cyfnod nesaf eu haddysg. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf â sefydliadau hyfforddi athrawon a cholegau addysg bellach lleol, sy'n helpu datblygu staff a disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu staff a chodi safonau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion, yn enwedig mewn gwella eu medrau llythrennedd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn dda. Mae niferoedd digonol o athrawon a staff cymorth cymwys sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer pob un o'r staff. Mae hyfforddiant a datblygiad staff yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau, ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Caiff penderfyniadau gwariant eu cysylltu'n glir â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Yng ngoleuni'r cynnydd da a wna disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwebaeth ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer fach o ddisgyblion sydd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus. Gall canlyniadau un disgybl effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Mae canlyniadau cyffredinol yn dangos bod cyflawniad yr ysgol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r awdurdod lleol yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011, o'i chymharu ag ysgolion tebyg sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd Ysgol Bryn Garth yn y 25% isaf ar gyfer Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd). Roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae tueddiadau yn dangos bod yr ysgol yn gyffredinol yn perfformio'n dda a'i bod gan amlaf yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob maes.

Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn rhoi Ysgol Bryn Garth yn y 50% uchaf ar gyfer Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd, o'i chymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Mae tueddiadau dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod yr ysgol yn perfformio'n well nag ysgolion eraill yn y rhan fwyaf o feysydd.

Mae cyrhaeddiad disgyblion ar gyfer y lefelau uwch yn y ddau gyfnod allweddol yn amrywio ac mae ychydig yn well yng nghyfnod allweddol 1 na chyfnod allweddol 2. Mae wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae Ysgol Bryn Garth yn cymharu'n dda â'i theulu o ysgolion (yr ysgolion hynny sy'n wynebu heriau tebyg). Mae'n perfformio'n well nag ysgolion eraill yn rheolaidd, er y bu rhywfaint o ostyngiad mewn perfformiad yn 2011.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyrhaeddiad bechgyn wedi bod islaw cyrhaeddiad merched. Fe wnaeth yr ysgol leihau'r bwlch hwn yn llwyddiannus yn 2011. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, er bod merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae bechgyn yn perfformio'n well ar y lefel 5 uwch.

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da iawn yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf ac mae rhai ohonynt yn gwneud hyd yn oed yn well. Mae'r disgyblion hynny sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd yn cyflawni'n dda. Mae llawer o'r rhain yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae llawer o ddisgyblion sy'n sipsiwn a theithwyr yn gwneud cynnydd priodol hefyd.

Mae craffu ar waith disgyblion a thystiolaeth o arsylwadau ystafell ddosbarth yn cefnogi'r barnau hyn yn llawn.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddisgyblion**

Llenwodd pedwar deg chwech o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Ychydig iawn y maent yn pryderu am ymddygiad disgyblion eraill amser egwyl neu yn y dosbarth. Maent yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i fod yn iach ac yn rhoi digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r rhai a holwyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod staff yn helpu iddynt wneud cynnydd ac yn eu cefnogi os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Maent yn cytuno bod ganddynt ddigonedd o lyfrau ac adnoddau.

Roedd ychydig iawn ohonynt yn credu nad oedd gwaith cartref yn helpu iddynt wella.

**Holiaduron i rieni**

Llenwodd tri deg o rieni/gofalwyr yr holiadur. At ei gilydd, roeddent yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag Ysgol Bryn Garth. Yn benodol, mae rhieni o'r farn fod staff yn helpu eu plentyn yn dda i ymgynefino, bod yr addysgu'n dda, bod staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed, bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda. Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed rhieni hefyd fod yr ysgol yn trefnu digonedd o wibdeithiau ac ymweliadau, a bod y staff yn bobl hawdd mynd atynt a'u bod yn helpu disgyblion i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb.

Mae ychydig iawn o rieni yn pryderu am ymddygiad disgyblion, p'un a yw staff yn dangos parch at ddisgyblion, ansawdd y wybodaeth am gynnydd eu plentyn a gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Rick Hawkley | Arolygydd Cofnodol |
| Rhona Edwards | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Deborah Eccles | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tamasine Croston (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i bob rhiant yn yr ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |